



**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**  
**26 Chwefror 2020**

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

**Testun:** Gweithio gyda'n gilydd i wella ysgolion

---

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Ceisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor i gynnal adolygiad o rôl yr Arweinydd Craidd a systemau rhannu gwybodaeth y rhanbarth.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mewn cyfarfod diweddar o Fwrdd Rheoli GwE ar 14 Chwefror 2020, argymhellwyd i adolygu'r canlynol:

- Rôl yr Arweinydd Craidd a'r strwythur ar draws y rhanbarth
- Rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a GwE, gan gynnwys G6 (y system gwybodaeth reoli ranbarthol).

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Angen cysoni deilliannau'r adolygiad â'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd Cenedlaethol.

---

- 3.2 Angen cysoni ag argymhellion sy'n deillio o ganfyddiadau arolygiadau Awdurdodau Lleol.
- 3.3. Datblygu dull strwythuredig a chyson o gefnogi ysgolion ar draws yr Awdurdodau Lleol a GwE, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir.
- 3.4 Angen sicrhau ymagwedd gyfannol at wella ysgolion a rhannu gwybodaeth allweddol rhwng partneriaid a rhanddeiliaid eraill yn effeithiol.
- 3.5 Angen ymgynghori ag ysgolion a sefydlu protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth a'i defnyddio at ddibenion gwella ac/neu atebolrwydd.
- 3.6 Sicrhau bod canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu cyfathrebu'n glir â phob rhanddeiliad perthnasol.
- 3.7 Byddem yn ceisio cyngor gan Lywodraeth Cymru ac ymgynghorwyr allanol yn ystod y broses adolygu.

#### **4.0 Argymhellion**

- 4.1. Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnal adolygiad o rôl presennol Arweinydd Craidd GwE a systemau rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol a GwE.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn ar hyn o bryd. Fe nodir unrhyw oblygiadau ariannol ac adrodd amdanynt fel rhan o'r adolygiad.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn. Fe nodir unrhyw oblygiadau personél ac adrodd amdanynt fel rhan o'r adolygiad.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

- 8.1 Bu ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE ac mae'r Bwrdd yn cefnogi'r adolygiad.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn â phriodoldeb.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r awdur yn datgan ym mharagraff 5 bydd dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r adroddiad hwn, felly disgwylir y bydd GwE yn gweithredu'r adolygiad o fewn ei gyllideb gyfredol.